

PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 21 Mai, 2024.

Mae-r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S. Lloyd-Selby (Cadeirydd); Cynghorwyr C.E.A. Champion, P. Drake, A.M. Ernest, M.J. Hooper, C. Iannucci-Williams, J.M. Norman, E. Penn, J. Protheroe a S.T. Wiliam

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr J. Aviet, B.E. Brooks (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Leoedd Cynaliadwy), I.R. Buckley, L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), H.C. Hamilton, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), C. Stallard, E. Williams (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd) ac MR Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu).

57 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

58 PENODI IS-GADEIRYDD –

ARGYMHELLWYD – Y Cynghorydd c. Iannucci-Williams yn cael ei benodi'n Is-gadeirydd am y flwyddyn Ddinesig.

59 COFNODION –

CYMERADWYWYD – cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ebrill 2024 fel cofnod cywir, yn amodol ar y diwygiad canlynol ynghylch Cofnod Rhif 1003, tudalen 3, Ceisiadau i'w Hystyried: Gwasanaethau Bws: dylid newid 'Sefydliad Browns' y cyfeirir ato yn y cofnodion i 'Sefydliad Bevan'.

60 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

61 ADRODDIAD DIWEDDARU: CANOLFANNAU AILGYLCHU GWASTRAFF Y CARTREF (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2024 fel y'i cynhwyswyd yn yr agenda gan y Rheolwr Gweithredol - Gwasanaethau Cymdogaeth: Gweithrediadau, a diben hyn oedd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried manylion yr adroddiad a'r atodiad ar y Canolfannau Ailgyrchu Gwastraff y Cartref (CAGCau) ym Mro Morgannwg a chyfeirio unrhyw sylwadau yn ôl i'r Cabinet. Pe na bai unrhyw safbwyntiau i'r gwrthwyneb yn cael eu mynegi gan y Pwyllgor, yna byddai argymhellion yr adroddiad yn cael eu hystyried fel rhai sydd wedi'u cymeradwyo.

Roedd cyflwyniad PowerPoint yn cyd-fynd â'r adroddiad, a roddodd gipolwg pellach i'r Aelodau ar brif bwyntiau'r adroddiad, gan gynnwys diweddariad ar y system archebu ar gyfer CAGCau, perfformiad ailgyrchu CAGCau, gwastraff gweddilliol a chynigion safle ar gyfer CAGC Llandŵ.

Yn dilyn yr adroddiad / cyflwyniad, gofynnodd y Cynghorydd Champion a allai trigolion Gorllewin y Fro archebu i ddefnyddio CAGC y Barri oherwydd y cyfyngiadau ar yr eitemau y gellid eu hailgyrchu yn CAGC Llandŵ. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw gyfyngiadau ar ba CAGCau y gallai trigolion Bro Morgannwg eu defnyddio i waredu ac ailgyrchu eu gwastraff.

Gofynnodd yr Is-gadeirydd pa ymdrechion yr oedd y Cyngor yn eu gwneud i sicrhau bod y gyfradd ailgyrchu ar gyfer CAGC Llandŵ yn gwella ac yn cyflawni'r un gyfradd ailgyrchu â CAGC y Barri. Esboniwyd, er na fyddai cyfradd ailgyrchu CAGC Llandŵ yn gallu cyfateb yn llawn i gyfradd ailgyrchu CAGC y Barri, oherwydd cyfyngiadau lleoliad y safle, ac ati, fod camau bach yn dal i gael eu cymryd i'w gwella, er enghraifft ei gwneud yn haws ar gyfer ailgyrchu a chael mynediad at y sgiplau yno. Roedd gan y ddau safle eu galluoedd ailgyrchu penodol eu hunain hefyd, fel ailgyrchu teiars yn y Barri a chyfleusterau gwaredu asbestos yn Llandŵ. Byddai'r cyfraddau ailgyrchu ar gyfer Llandŵ dim ond yn cyfateb i safle'r Barri pe bai'n cael ei adleoli'n llawn i safle arall.

O ran ymholiad y Cynghorydd Wiliam ar y ffigurau / trefniadau archebu ar gyfer CAGCau a sut y cafodd archebion eu 'cyfrif' ar gyfer y rhain, dywedwyd bod yr ystadegau ynghylch hyn yn ymwneud â nifer yr archebion fesul person, fesul ymweliad. Roedd y ffigurau archebu yn cynnwys cerbydau masnachol, faniau ac archebion trelar ar gyfer trwyddedau. Yn ystod blwyddyn galendr 2023, gwnaed 200,950 o archebion yn y ddau safle, gan nodi bod y ddau gyfleuster wedi cael eu defnyddio'n dda. Gwnaeth y Cynghorydd sylw ar effeithiolrwydd y system archebu a'r wefan, yn ogystal â hyblygrwydd y staff ar y safleoedd a'r diffyg ciwio i gael mynediad i'r safleoedd o ganlyniad. O ran cwestiwn dilynol y Cynghorydd ynghylch pam nad oedd y bagiau ailgyrchu gwyn ar gyfer batris yn cael eu casglu gan y Cyngor drwy gasgliadau wrth ymyl y ffordd ar gyfer rhai trigolion y Fro, byddai'r Rheolwr Gweithredol - Gwasanaethau Cymdogaeth: Gweithrediadau'n trosglwyddo'r mater hwn i'r tîm perthnasol i gael sylw a'i fonitro. Pe bai pryderon pellach yn cael eu canfod, gellid ystyried mwy o waith fel annog trigolion i roi gwybod i'r Cyngor am faterion o'r fath ac i dynnu sylw at hyn trwy'r cyfryngau cymdeithasol, ac ati.

O ran ymholiad y Cynghorydd Drake ar ystadegau ailgylchu cartonau yn Nhabl 2 yr adroddiad, cyfeiriodd hyn at becynnau tetra a oedd wedi'u cadw ar y safleoedd o'r blaen ond erbyn hyn oherwydd newidiadau mewn prosesau ailgylchu a rheoli gwastraff, nid oedd y rhain yn cael eu cludo i CAGCau mwyach. Arhosodd hyn ar yr ystadegau oherwydd ei fod yn ddangosydd perfformiad ar y contract gwreiddiol.

Dywedodd y Cynghorydd Protheroe y byddai'r trigolion yng Ngorllewin Bro Morgannwg yn croesawu'r gwelliannau sydd i'w gwneud i'r ffordd sy'n arwain at CAGC Llandŵ a fyddai'n helpu i wella'r cyfraddau ailgylchu yno. Cyfeiriodd at gyfarfod blaenorol y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol ym mis Mawrth lle awgrymwyd bod y Cyngor yn gofyn i Lywodraeth Cymru am dir yn Picketston yng Ngorllewin y Fro a gofynnodd a oedd hyn wedi cael ei ddatblygu. Mewn ymateb, bu sôn am gydweithio a phartneriaeth ar gyfer cyfleuster CAGC newydd posibl yng Ngorllewin y Fro, ond nid oedd hyn wedi digwydd oherwydd heriau a materion amrywiol o ran sut i fonitro ailgylchu yno. Eglurodd y Cynghorydd Protheroe mai ei phwynt oedd mewn perthynas â phrynu hen dir y Llu Awyr Brenhinol ger Sain Tathan gan Lywodraeth Cymru (yn Picketston). Dywedodd y Rheolwr Gweithredol y byddai hyn yn cael ei ailystyried ond nid oedd unrhyw ddiwydrwydd dyladwy wedi'i wneud ar hyn hyd yma.

Cododd y Cynghorydd Hooper nifer o bwyntiau ac ymholiadau, y gellid eu crynhoi (ac a gafodd sylw) fel a ganlyn:

- Adleisiodd sylwadau'r Cynghorydd Wiliam ar y system archebu ac ati er mwyn i CAGC weithio'n dda.
- Byddai'n dda gweld ar y proffil archebion misol y ffigurau fel canran er mwyn gweld sut mae'n gwella neu'n newid o flwyddyn i flwyddyn.
- I hefyd edrych ar dunelledd gwastraff (ailgylchu, gweddilliol, ac ati) fel canran.
- O ran canran y gwastraff na chafodd ei ailgylchu, a pha effaith a gafwyd oherwydd y newidiadau mewn casglu gwastraff cyffredinol (casglu bagiau bob tair wythnos) a chostau sy'n gysylltiedig â thrwyddedau gwastraff gwyrdd. Esboniwyd bod adroddiad blaenorol wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor yn amlinellu perfformiad CAGCau mewn meysydd o'r fath. Yn gyffredinol, roedd gwastraff gweddilliol yn lleihau ond nid cymaint ag yr hoffai'r Cyngor ei weld yn y Canolfannau Ailgylchu. Felly, byddai mesurau rheoli ychwanegol yn cael eu ceisio er mwyn gostwng y ffigurau hyn ymhellach ac i annog ailgylchu yn ogystal â newidiadau i ymddygiad y trigolion hynny a oedd yn dal i wrthsefyll ailgylchu. Byddai unrhyw newidiadau eleni yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad diweddar a oedd yn cynnwys yr holl ardaloedd casglu a'r Canolfannau Ailgylchu a drefnwyd ar gyfer mis Chwefror 2025, ar Flaenraglen Waith y Pwyllgor. Eglurodd y Rheolwr Gweithredol hefyd y ffigwr ychwanegol ar siartiau'r cyflwyniad ar dunelleddau gwastraff gweddilliol a dywedodd fod hyd at 20% o gyfanswm y gwastraff yn cael ei ailgylchu fel lludw gwaelod a bod deunyddiau eraill hefyd yn cael eu hadennill fel metelau. Roedd y ffaith bod mwy o wastraff gwyrdd yn mynd i CAGCau yn gadarnhaol oherwydd dan y contract presennol gyda'r darparwr gwasanaeth gwastraff, roedd hyn yn golygu ei fod yn amsugno'r costau cysylltiedig yn ogystal â'r buddion amgylcheddol ac ailgylchu canlyniadol.
- A oedd y Cyngor wedi derbyn unrhyw hawliadau yn uniongyrchol o ganlyniad i drigolion yn defnyddio eu cerbydau ar y ffordd a gynhelir yn wael yn arwain at

CAGC Llandŵ. Esboniwyd bod unrhyw hawliadau o'r fath yn cael eu cyfeirio at landlord y safle. Ni wyddys a oedd y rhain wedi bod yn llwyddiannus ai peidio.

- Yn gysylltiedig â'r pwynt uchod, a'r amodau ar safle Llandŵ, a oedd y Cyngor yn ceisio lleihau ei rent i landlord y safle. Dywedwyd bod y taliadau a'r costau rhent eisoes yn gymharol isel yn Llandŵ ac nad oedd unrhyw rent ar gyfer safle'r Barri (er bod taliadau gwasanaeth). Felly, byddai'r arian a'r buddsoddiad gan y Cyngor i wella'r ffordd yn Llandŵ yn werth da am arian ac o fudd i drigolion.
- A ddylai'r Cyngor fod yn edrych nid yn unig i ddisodli safle Llandŵ, ond hefyd i ehangu neu ychwanegu cyfleusterau newydd mewn rhannau eraill o Fro Morgannwg. Amlinellwyd na fu'n bosibl adleoli safle Llandŵ ar hyn o bryd. O ran safleoedd posibl eraill, byddai angen seilio unrhyw ystyriaethau ar y rhain ar y lleoliad gorau, fel lle roedd canolfannau poblogaeth mawr a lle y gellid cyflawni rheoliadau trwyddedu amgylcheddol. Felly, gallai'r opsiynau fod yn gyfyngedig oherwydd diffyg tir addas a hygyrchedd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Penn at y system archebu a'r trwyddedau y gallai trigolion eu cael i ddefnyddio cerbydau mwy i waredu gwastraff, gan gynnwys y gwerth da am arian roedd hyn yn ei gynrychioli i drigolion, yn ogystal â'r heriau, fel ceisio dadlwytho cerbydau o'r fath yn hwyrach yn y dydd pan oedd llai o staff ar gael. Esboniwyd bod y system drwyddedau wedi'i chynllunio i ganiatáu i drigolion fenthyg fan neu drelar i fynd â deunydd gwastraff i'r safle. Ni allai'r Cyngor godi tâl am y trwyddedau hyn fel y cyfryw, yn hytrach ffi weinyddol oedd y pris ar gyfer cynhyrchu'r trwyddedau a'u postio i drigolion. Pwysleisiwyd bod CAGCau wedi'u trwyddedu ar gyfer gwaredu gwastraff domestig yn unig, nid gwastraff masnachol.

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladau at y buddion aruthrol i Orllewin y Fro wrth ailwynebu yn Llandŵ, y rheolaethau ychwanegol yn CAGCau i leihau gwastraff gweddilliol ac i wneud y mwyaf o ailgylchu a'r ymateb cadarnhaol yn gyffredinol gan drigolion wrth gadw at y mesurau ailgylchu a chasglu gwastraff newydd. Roedd yn hapus i Aelodau Etholedig gysylltu ag ef neu swyddogion perthnasol y Cyngor pe baent yn nodi unrhyw achosion o waredu gwastraff yn anghyfreithlon ac achosion o 'dipio anghyfreithlon'.

Ychwanegodd y Cadeirydd, pe bai'n bosibl, a ellid cynnwys yr awgrymiadau a wnaed gan yr Aelodau ar yr eitem hon mewn diweddariadau ac adroddiadau ar y mater hwn yn y dyfodol, gan gynnwys defnydd misol, cymariaethau o flwyddyn i flwyddyn, yr hyn a oedd yn cael ei waredu yn y canolfannau ailgylchu wedi'i ddangos fel canran o ran tunelledd, edrych ar dir sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru ar gyfer CAGC yn y dyfodol yng Ngorllewin y Fro ac fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd ystyried nodi safleoedd CAGC posibl eraill yn y sir oherwydd maint y boblogaeth, ac ati.

Dywedodd y Rheolwr Gweithredol – Gwasanaethau Cymdogaeth: Gweithrediadau, pe na bai unrhyw argymhellion na sylwadau i'r Cabinet gan y Pwyllgor, yna byddai gwaith yn dechrau ar y ffordd i safle Llandŵ yn ystod yr wythnosau nesaf.

Yn dilyn hynny,

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi'r cyfeiriad a'r adroddiad diweddaru ar y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref (CAGC) (gan gynnwys y gwaith

atgyweirio arfaethedig ar y ffordd fynediad sy'n arwain at CAGC y Cyngor, Llandŵ, fel y manylir arno yn Atodiad A i'r adroddiad).

Rheswm dros yr argymhelliad

Gyda golwg ar gynnwys y geirda, yr adroddiad a'r atodiad, ynghyd â'r trafodaethau yn y cyfarfod.

62 TRACIO ARGYMHELLION SGRIWTINI 4YDD CHWARTER 2023/24 AC ATODLEN RHAGLEN GWAITH CYCHWYNNOL FLYNYDDOL ARFAETHEDIG 2024/25 (CAC) –

Rhoddodd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan y Cadeirydd, gyda chefnogaeth y Swyddog Gwasanaethau Craffu a Democrataidd, wybod i'r Aelodau am gynydd mewn perthynas ag argymhellion hanesyddol y Pwyllgor Craffu ac amserlen arfaethedig y Flaenraglen Waith ar gyfer 2024/25:

- Tracio Argymhellion Chwarter 4, mis Ionawr i fis Mawrth 2024 (Atodiad A);
- Blaenraglen Waith Flynyddol y Cabinet ar gyfer 2024/25 (Atodiad B);
- Amserlen Arfaethedig y Flaenraglen Waith Flynyddol ar gyfer 2024/25 (Atodiad C).

Cyfeiriodd y Cadeirydd y Pwyllgor hefyd at Atodiad A yr adroddiad, gan roi gwybod i'r Pwyllgor fod yr argymhellion i gyd wedi'u cwblhau a thynnu sylw'r Pwyllgor at y camau gweithredu / ystyriaethau a gymerwyd gan y Cabinet ac ati o ganlyniad.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at Flaenraglen Waith y Pwyllgor gan dynnu sylw at nifer o adroddiadau allweddol a fyddai'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor dros flwyddyn 2024/25 y Cyngor. Roedd y rhain yn cynnwys diweddariad ar ansawdd dŵr ymdrochi ar draethau ymdrochi dynodedig ym Mro Morgannwg, Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg ar gyfer 2011-2026: Adroddiad Monitro Blynyddol 2024/25 a Chynllun Adnewo Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2021-2036. Roedd gan y Pwyllgor hefyd y diweddariad ar fonitro'r arfordir yn rhan olaf 2024 a'r gwaith o ystyried deiseb gyhoeddus ynghylch goruchwylwyr croesfannau ysgolion yn gynharach yn y rhaglen waith hefyd, a oedd wedi'i drefnu ar hyn o bryd ym mis Mehefin.

Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor, oherwydd y busnes helaeth y byddai'n ymdrin â fe dros y flwyddyn, a gyda nifer o agendâu prysur iawn dros y misoedd nesaf, ei bod yn ystyried cymryd rhai adroddiadau ariannol fel gwybodaeth yn unig ar ddechrau blwyddyn y Cyngor a'r flwyddyn ariannol i sicrhau bod gan y Pwyllgor ddigon o amser i graffu ar y materion hynny a oedd yn arbennig o berthnasol iddo.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, cyfeiriodd y Cynghorydd Hooper at y sylwadau a wnaed am adroddiadau ariannol ac roedd yn dymuno egluro a fyddai'r adroddiadau ariannol cychwynnol hyn yn dal i fod ar yr agenda ai peidio a hefyd mynegodd bryderon ynghylch y posibilrwydd o graffu'n colli allan ar faterion ariannol allweddol fel yr hyn yr oedd yn teimlo a ddigwyddodd yn y gorffennol o ran gorwariant y system Oracle newydd. Mewn ymateb, dywedwyd mai dim ond i'r adroddiadau ariannol

cychwynnol y byddai hyn yn berthnasol ar ddechrau'r flwyddyn ac y byddai'r adroddiadau ariannol canol blwyddyn a'r adroddiadau'n ddiweddarach yn y flwyddyn ar yr agenda ar gyfer craffu llawn. O ran yr adroddiadau ariannol cychwynnol y nod oedd eu rhoi ar yr agenda, ond roedd y rhain yn eu hanfod, ac oni bai bod yr Aelodau yn datgan fel arall cyn y cyfarfod, yn fwy at ddibenion gwybodaeth yn unig ac ni fyddai angen presenoldeb swyddog o reidrwydd. Fodd bynnag, pe bai gan Aelodau'r Pwyllgor, ar ôl edrych ar yr adroddiadau dan sylw, gwestiynau yr oeddent am eu gofyn yng nghyfarfod y Pwyllgor, yna cyn belled â bod y Swyddog Gwasanaethau Craffu a Democrataidd perthnasol a'r Cadeirydd yn cael eu hysbysu, gallai swyddog fod yn bresennol a gellid craffu ymhellach ar yr adroddiad. Pwysleisiwyd y byddai pob adroddiad yn cael ei ystyried pe bai craffu yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei ystyried a phe na bai unrhyw ymgais yn cael ei wneud i guddio na hepgor unrhyw feysydd allweddol o adroddiadau neu ddata ariannol i'r Pwyllgor.

Roedd y Cyngorydd Hooper am ychwanegu, er ei fod yn gwerthfawrogi'r angen i Aelodau'r Pwyllgor edrych ar yr holl adroddiadau a dogfennau allweddol cyn y cyfarfod, o ran cwestiynau, ac ati, roedd hefyd yn teimlo ei bod yn bwysig bod adroddiadau ariannol yn parhau ar yr agenda i'w hystyried a dylid cynllunio maint yr agenda ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor yn briodol er mwyn osgoi cael cyfarfodydd rhy fyr a hir a thrwy hynny sicrhau y gallai'r Aelodau graffu ar eitemau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn briodol. Mewn ymateb, dywedodd y Cadeirydd y gallai maint agendâu cyfarfodydd amrywio, er enghraifft, oherwydd bod angen i'r Pwyllgor ystyried Blaenraglen Waith Flynyddol y Cabinet ac amserlennu adroddiadau a chyfeiriadau o hynny i'r Pwyllgor, yn ogystal â'r ffaith bod y rhaglen waith yn 'symudol' ac felly gallai cyfansoddiad agenda pob mis newid oherwydd y ffactorau hyn a ffactorau eraill.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, gwnaeth Craffu

ARGYMHELLWYD –

- (1) Cytuno ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiad A i'r adroddiad.
- (2) Y dylid nodi Rhaglen Gwaith Cychwynnol Flynyddol y Cabinet ar gyfer 2024/25 sydd ynghlwm yn Atodiad B i'r adroddiad, yng nghyd-destun Rhaglen Gwaith Cychwynnol Flynyddol Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio 2024/25.
- (3) Cymeradwyo Atodlen Rhaglen Gwaith Cychwynnol Flynyddol arfaethedig y Pwyllgor ar gyfer 2024/25, sydd ynghlwm yn Atodiad C i'r adroddiad, a'i lanlwytho i wefan y Cyngor.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Parhau i olrhain argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.
- (2) Alinio ag adran 7.6 o Brotocol Rolau a Chyfrifoldebau'r Cabinet a Chraffu.
- (3) Er gwybodaeth i'r cyhoedd.